Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 436 (Cy. 104)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 11 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth cyllid llywodraeth leol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 436 (Cy. 104)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni* *18 Chwefror 2019*

*Gwnaed* *4 Mawrth 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *5 Mawrth 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**) (sy'n ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 11 o'r Ddeddf honno a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 a deuant i rym ar y diwrnod ymadael(**2**).

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) Mae "exit day" (y diwrnod ymadael) wedi ei ddiffinio yn adran 20(1) i (5) (dehongli) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (pŵer i wneud darparu gwybodaeth yn ofynnol), ym mharagraff (11)—

(a) yn lle'r diffiniad o "banc" rhodder—

"ystyr "banc" ("*bank*") yw—

(a) person sydd â chaniatâd o dan Ran 4A o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000(**2**) i dderbyn adneuon; neu

(b) person nad oes arno angen caniatâd o dan y Ddeddf honno i dderbyn adneuon, yng nghwrs busnes y person hwnnw yn y Deyrnas Unedig;";

(b) yn lle'r diffiniad o "yswiriwr" rhodder—

"ystyr "yswiriwr" ("*insurer*") yw person sydd â chaniatâd o dan Ran 4A o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i effeithio neu gyflawni contractau yswiriant."

### Diwygio Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7 (hereditamentau rheilffyrdd), ym mharagraff (3), yn lle'r diffiniad o "licence exempt operator" a "licence holder" rhodder—

""licence exempt operator" and "licence holder" have the meanings given by sections 10(6) and 83(1) respectively of the Railways Act 1993(**4**) except that licence holder also includes a holder of a railway undertaking licence granted pursuant to the Railway (Licensing of Railway Undertakings) Regulations 2005(**5**); and".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
4 Mawrth 2019

(**1**) O.S. 2013/588 (Cy. 67), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) 2000 p. 8.
(**3**) O.S. 2005/422 (Cy. 40). Gwnaed diwygiadau perthnasol gan O.S. 2005/3050 ac O.S. 2016/645.
(**4**) 1993 p. 43.
(**5**) O.S. 2005/3050.